OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2061 (Cy.210)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygiad Rhif 3) 2002

Wedi'i wneud	- -	*31 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym	- -	*1 Awst 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7, 8(1) ac 87(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygiad Rhif 3) 2002; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 1 Awst 2002.

Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol yr erthygl hon.

(2) Yn erthygl 2—

(a) yn lle'r diffiniad o "animals" rhoddir y diffiniad canlynol—

> ""animals" means cattle (excluding bison and yak), deer, goats, sheep and swine;"; a

(b) dirymir y diffiniad o "camelid".

(3) Yn erthygl 3(2)(b)—

(a) yn lle paragraff (ix) rhoddir y paragraff canlynol—

(**1**) 1981 p.22. Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). I'r graddau yr oedd y swyddogaethau hynny yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd hwy i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141) ac fe'u trosglwyddwyd ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/280 (Cy.32) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1038 (Cy.110) ac O.S 2002/1356 (Cy. 132).

"(ix) of an animal to a show or exhibition from premises to which it has been moved from another show or exhibition, providing that no other animal has been moved onto those premises (or other premises in the same sole occupancy group) during the period of 20 days before the day on which the first mentioned animal is to be moved;";

(b) yn lle paragraff (xiv) rhoddir y paragraff canlynol—

"(xiv) of an animal between land over which the owner or keeper of the animal has a registered right of common and—

(aa) premises occupied by the owner or keeper of the animal and in relation to which the registered right of common is customarily exercised; or

(bb) premises occupied by any other person who has a registered right of common over that land and in relation to which the registered right of common is customarily exercised;";

(c) ar ôl paragraff (xiv) mewnosodir y paragraff canlynol—

"(xivA) of an animal between premises occupied by the owner or keeper of the animal and in relation to which a registered right of common over land is customarily exercised and premises occupied by any other person who has a registered right of common over that land and in relation to which the registered right of common of that other person is customarily exercised;";

(ch) dirymir paragraff (xv);

(d) ym mharagraff (xvii) dilëir y gair "camelids"; ac

(dd) ym mharagraff (xviii)—

(i) yn lle'r geiriau "of a bull or ram or a goat, camelid or deer of either sex" rhoddir y geiriau "of a bull or ram or a goat or deer of either sex"; a

(ii) dirymir is-baragraff (dd).

(4) Yn erthygl 3(3)—

(a) yn is-baragraff (c) yn lle'r geiriau "a bull or a deer or camelid of either sex" rhoddir y geiriau "a bull or a deer of either sex";

(b) dirymir paragraff (c)(iii);

(c) dirymir is-baragraffau (f) a (k); ac

(ch) yn is-baragraff (o) dilëir y gair "camelids".

(5) Yn erthygl 3 ar ôl paragraff (4A) ychwanegir y paragraff canlynol—

"(4B) The requirements set out in paragraph (1) above shall not apply to the movement of animals to or from zoos licensed under the Zoo Licensing Act 1981(**3**);"

(6) Dilëir erthyglau 5, 6 ac 14.

(**3**) 1981 c. 37.